Pecyn Recriwtio

# Uwch-Reolwr Cyfathrebu a Marchnata



# Pwy ydi Galeri?

Sefydlwyd Galeri Caernarfon Cyf, dan yr enw gwreiddiol, Cwmni Tref Caernarfon Cyf, yn 1992.

Y bwriad gwreiddiol, sy'n parhau i fod yn wir hyd heddiw ydi i ddatblygu llewyrch yn nhref Caernarfon, yn datblygu prosiectau cymunedol, economaidd ac amgylcheddol er budd cymuned Caernarfon a'r cyffuniau mewn ymateb i gyflwr canol tref Caernarfon yn y 1980au, pan oedd dros hanner yr eiddo o fewn muriau'r dref yn segur neu wedi dirywio'r ddrwg.

Yn ystod y blynyddoedd cynnar, canolbwyntiodd y cwmni ar adfywio adeiladau hanesyddol, yn prynu, adnewyddu ac ailagor dros 25 eiddo sydd bellach mewn tenantiaeth masnachol neu breswyl yn y dref.

Daeth y gwaith hwn yn gatalydd arwyddocaol ar gyfer adfywiad economaidd Caernarfon gan osod seiliadu cryf i Galeri barhau i ddatblygu yn y dref.

Datblygiad mwyaf uchelgeisiol y sefydliad hyd yma ydi Canolfan Gelfyddydol Galeri, agorodd Galeri yn swyddogol yn 2005 ar safle Doc Fictoria – ardal sy'n fwyaf adnabyddus heddiw fel lleoliad cychod pleser, ond sy'n perthyn i gyfnod diwylliannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ardal ddocio i longau lle nad oedd lle iddynt ar y Cei Llechi oherwydd prysurdeb y fan honno.

Prysur eto ydi'r Cei gyda chydweithrediad Galeri Caernarfon Cyf ac Ymddiriedolaeth yr Harbwr i ail ddatblygu'r safle honno yn bentref siopa Artisan, llawn artistiaid, gwneuthurwyr a busnesau lleol.

Daeth Galeri, y Ganolfan, yn gartref i'r creadigol ac yn brif leoliad diwylliannol y dref gyda dros 70,000 yn mynychu digwyddiadau bob blwyddyn. Yn Theatr, Sinema, Stiwdos, Oriel Gelf a chaffi prysur. Mae andros o stori dda i'w hadrodd yma – ac mae angen eich cefnogaeth chi arnom ni.

galeri

Manylion y Swydd

# Uwch-Reolwr Cyfathrebu a Marchnata

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Caernarfon** |
| Rôl: | **Llawn amser** (37 awr yr wythnos) |
| Cyflog: | **£35,000 - £39,500** (Cyflog cychwynnol gyda lle i ddatblygu o fewn y cwmni) |
| Yn atebol i'r: | **Prif Weithredwr** |
| Yn gyfrifol am: | **Aelodau'r tîm** (yn staff Cyflogedig a Llawrydd) |

**Mae Galeri yn cynnig amgylchedd gwaith creadigol, rhaglen fuddion i staff, 27 diwrnod o wyliau (gyda gwyliau banc yn ychwanegol) ac oriau hyblyg.**

galeri

# Prif Gyfrifoldebau

- Arwain ar ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu yn unol â Chynllun Corfforaethol newydd y Cwmni gan gynnwys rhaglen farchnata gynhwysfawr ar draws y sefydliad – Galeri y Ganolfan Gelfyddydol, Galeri y Landlord, Galeri a Cei Llechi, Galeri a Chaernarfon.
- Cefnogi'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm gyda negeseuon strategol, gorfforaethol a chefnogi prosesau cyfathrebu mewnol.
- Arwain gwaith cyfathrebu a materion allanol lleol a chenedlaethol y sefydliad, gan reoli'r berthynas â'r cyhoedd, y cyfryngau a rhanddeiliaid allanol er mwyn hybu enw da a dylanwad y sefydliad. Paratoi datganiadau i'r wasg a gweithredu fel prif gyswllt cyfathrebu allanol.
- Creu a chyflwyno cynlluniau marchnata arloesol i hyrwyddo'r rhaglen artistig, y sinema, oriel gelf, digwyddiadau cymunedol a'r gwasanaethau masnachol – caffi, eiddo, Cei Llechi. Defnyddio data ac ymchwil i wella cyrhaeddiad a chyfranogiad.
- Sicrhau brand cryf a chyson ar draws yr holl sianeli, gan gynnwys print, digidol, marchnata uniongyrchol, hysbysebu a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cynhyrchu a goruchwylio ymgyrchoedd sy'n cynhyrchu incwm, yn cynnwys gwerthiant tocynnau, gwerthiant celf ac hyrwyddo digwyddiadau.
- Rheoli cyllidebau marchnata ac adrodd ar berfformiad trwy ddata, dangosyddion allweddol ac adolygiadau tymhorol.

galeri

# Sgiliau Hanfodol

- Profiad o arwain mewn swydd gyfathrebu, marchnata neu ddatblygu cynulleidfaoedd.
- Sgiliau rhagorol o ran cynllunio strategol, rheoli prosiectau a chreu cynnwys.
- Y gallu i lunio naratifau sy'n gyson, effeithiol ac yn adlewyrchu Cynllun Corfforaethol y sefydliad.
- Gallu cryf i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg i safon broffesiynol.
- Dealltwriaeth gadarn o ymgyrchoedd marchnata digidol, dadansoddeg a rheoli platfformau ar-lein.
- Profiad o reoli cyllidebau a gweithio'n effeithiol gyda thimau amrywiol.

galeri

# Sgiliau Dymunol

- Gwybodaeth am y sector gelfyddydol yng Nghymru a'r DU.
- Gwybodaeth am y trydydd-sector yng Nghymru a'r DU.
- Gwybodaeth am ddatblygiadau a deddfwriaeth perthnasol.

# Lleoliad

Wedi'i leoli yn Galeri, bydd angen hyblygrwydd o ran oriau i gefnogi digwyddiadau, lansiadau a gweithgarwch y rhaglen.

Rôl allweddol, deinamig ac arweiniol mewn sefydliad uchelgeisiol sy'n gwasanaethu Caernarfon a'r ardal ehangach.

Mae Galeri yn cynnig amgylchedd gwaith creadigol a buddion cystadleuol.

# I wneud cais

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am y swydd neu am fanylion pellach, cysylltwch â Nia Arfon, Prif Weithredwr

**nia.arfon@galericaernarfon.com**

Cyflwynwch eich ffurflen gais i **swyddi@galericaernarfon.com** cyn **09:00am, Dydd Mercher 18fed o Fawrth.**

galericaernarfon

Galeri

Galeri Caernarfon Cyf

galeri